# Polisi
# **Codi tâl**
# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

| Enw'r polisi | Dyddiad adolygu | Dyddiad adolygu nesaf |
|---|---|---|
| Polisi Codi Tal | Ionawr 2026 | Ionawr 2027 |

**Polisi Codi tâl am weithgareddau ysgol**

Mae addysg o fewn oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Os ydy'r gweithgareddau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol, nid ydym yn disgwyl codi tâl ar eu cyfer ag eithrio gwersi offerynnol sy'n cael eu haddysgu gan 'Gwent Music'. Yn dilyn Deddf Addysg 1988, mae'n ofynnol i Gyrff Llywodraethol Ysgolion gael polisi ynglŷn â chodi tâl am weithgareddau ysgol.

Amcanion y ddeddf yw:

- i gadw'r hawl i addysg rad;
- i sicrhau bod gweithgareddau'r ysgol ar gael i'r holl ddisgyblion, er gwaethaf gallu neu barodrwydd rhieni / gwarchodwyr i gyfrannu at y gost. Pwysleisir nad oes gofyn statudol i godi tâl am addysg neu weithgareddau perthnasol ond fe roddir hawl i Awdurdodau Addysg a Chyrff Llywodraethol i godi tâl am rai gweithgareddau pan fo' angen;
- cadarnhau hawliau awdurdodau ac ysgolion i wahodd cyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol neu gefnogi unrhyw weithgaredd a drefnir – boed hynny yn ystod oriau ysgol neu ar ôl ysgol.

**Cinio Ysgol:**
Mae cinio ysgol bellach am ddim i holl ddisgyblion yr ysgol.

**Gwersi offerynnol:**
Nid oes rheidrwydd ar yr ALl na'r Llywodraethwyr i roddi hyfforddiant offerynnol unigol. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn un o'r meysydd dysgu a phrofiad ac felly, fe addysgir cerddoriaeth i bob disgybl. Mae disgyblion sy'n dymuno derbyn gwersi unigol offerynnau cerdd yn gallu gwneud hynny drwy bartneriaeth yr ysgol gyda *Gwent Music*. Mae athrawon arbenigol o *Gwent Music* yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol i ddarparu gwersi ar amrywiaeth o offerynnau. Talir am y gwersi hyn yn uniongyrchol i Gwent Music. Mae plant blwyddyn 2 yn derbyn gwersi ffidil yn rhad ac am ddim am dymor a hanner. Mae Cerdd Torfaen hefyd yn cynnig gwersi i holl ddisgyblion yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

**Nofio:**
Mae'n bwysig bod disgyblion yn derbyn hyfforddiant nofio. Rydym yn darparu gwersi nofio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4. Ni chodir tâl am y gwersi eu hunain, ac ar hyn o bryd mae'r ysgol yn talu am gost y drafnidiaeth bob wythnos. Fodd bynnag, yng ngoleuni

cyfyngiadau ariannol, efallai na fydd modd i'r ysgol gynnal y trefniant hwn yn y tymor hir, ac o ganlyniad efallai y bydd angen gofyn am gyfraniad gan rieni i gefnogi'r gost o drafnidiaeth.

**Ymweliadau Dosbarth:**

Mae ymweliadau o'r ysgol yn cyfoethogi addysg y disgyblion ac mae'r cyfleoedd i ymweld â mannau y tu allan i'r ysgol yn digwydd yn achlysurol. Yn yr achosion hyn, mae angen cludiant ac, ar brydiau, mae angen tâl mynediad i wahanol leoedd. Rydym yn ymwybodol o'r baich ariannol sydd ar rieni ac mae'r ysgol yn sicrhau na fydd cost unrhyw ymweliad yn afresymol. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw riant / warchodwr i gyfrannu tuag at y gweithgareddau hyn. Pe bai rieni yn dewis peidio cyfrannu, rhoddir hawl i'r Pennaeth ddileu gweithgareddau os yw'r gost yn ei barn hi yn mynd yn afresymol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y gweithgareddau'n parhau er budd y disgyblion ond mae'n rhaid sylweddoli na fydd hi'n bosibl i gronfa'r ysgol gyfarfod â chostau afresymol.

**Costau teithiau dros nos:**

Rydym yn ceisio cadw costau teithiau dros nos mor isel â phosib. Rydym bob tro yn rhoi digon o rybudd ar gyfer teithiau dros nos, fel bod gan deuluoedd ddigon o amser i gynilo arian. Gofynnir am flaendal ym mhell o flaenllaw er mwyn rhoi cyfle i deuluoedd dalu dros gyfnod o amser. Y teithiau dros nos y cynigiwn fel ysgol yw:

**Blwyddyn 4**: Taith dros nos i Ganolfan Dolygaer
**Blwyddyn 5**: Taith dros nos yn Llangorse
**Blwyddyn 6**: Taith dwy noson yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.

**Gweithgareddau Allgyrsiol:**

Fel arfer, staff yr ysgol sy'n cynnal gweithgareddau allgyrsiol felly does dim cost i'r clybiau hyn. Cynigir rhai clybiau allanol ar ôl ysgol gan yr Urdd a Menter Iaith ond ni chodir mwy na £3 am y sesiynau hyn.

**Difrod bwriadol i eiddo ysgol:**

Os ydy disgybl yn achosi difrod bwriadol i eiddo'r ysgol, gall yr ysgol ofyn i'r rhiant / gwarchodwr dalu'r gost yn llawn os dymunant.

| Enw'r polisi | Dyddiad adolygu | Dyddiad adolygu nesaf |
|---|---|---|
| Polisi Codi Tal | Ionawr 2026 | Ionawr 2027 |

**Charging Policy**

All education during school hours is free. We do not charge for any activities which are arranged as part of the National Curriculum, apart from music lessons which are provided by Gwent Music. Following the 1988 Education Act, School Governing Bodies are required to produce a policy regarding charging for school activities. The aims of the legislation are to:

- maintain the right to a free education;

- ensure that school activities are available to all pupils, irrespective of the ability or willingness of parents / guardians to contribute towards the cost. It is emphasised that there is no statutory requirement to charge for education or relevant activities, but Education Authorities and Governing Bodies are given the right to charge for some activities when required;

- confirm the rights of authorities and schools to invite voluntary contributions which will benefit the school or in support of any activity arranged – whether during or after school hours.

**Instrumental tuition:**

There is no obligation on the LA or Governors to provide individual music tuition. The Expressive Arts are one of the areas of learning and therefore, music is taught to all pupils. Pupils who wish to receive individual musical instrument tuition may do so through the school's partnership with *Gwent Music*. Specialist teachers from Gwent Music visit the school on a weekly basis to provide lessons across a range of instruments. Fees for these lessons are payable directly to Gwent Music. Year 2 children will all receive free violin lessons for a term and a half. 'Cerdd Torfaen' also offers music lessons for all pupils during the year.

**Swimming**

It is important for the pupils to have swimming lessons. We offer weekly lessons for year 4 pupils, which are free of charge. The school pays for the cost of transport to the swimming pool. However, in light of financial constraints, it may not be possible for the school to maintain this arrangement in the long term, and as a result it may be necessary to request a contribution from parents to support the cost of transport.

| Enw'r polisi | Dyddiad adolygu | Dyddiad adolygu nesaf |
|---|---|---|
| Polisi Codi Tal | Ionawr 2026 | Ionawr 2027 |

**School dinners:**
All pupils in the school are provided with a free hot dinner / salad or pasta bar every day.

**Class visits:**
School visits enrich the pupils' education and regular opportunities arise to visit places outside the school. In such cases, there is a need for transport and sometimes an admittance fee. We are aware of the financial burden on parents / guardians and the school will ensure that costs are kept to a minimum. There is no compulsion on any parent / guardian to contribute to these activities. If parents / guardians choose not to contribute, the head teacher has the right to cancel the activity if the cost, in her opinion, becomes unreasonable. If this were to happen regularly, the pupils' education would be affected.

**Residential Activities:**
We always try to keep the cost of our residential trips as low as possible. We always give enough notice for these trips, in order to give families enough time to save. We also ask for a deposit a while before going on the trip so that families can choose to pay over a period of time. The trips we offer are:

| | |
|---|---|
| **Year 4:** | A night at the Dolygaer Outdoor Activity Centre. |
| **Year 5:** | A night in Llangorse |
| **Year 6:** | Two nights in the Urdd Camp in Llangrannog |

**Extracurricular activities:**
These activities are usually organised and run by the school staff and therefore are free of charge. Some outside agencies hold clubs on the school premises from time to time e.g. Menter Iaith and the Urdd, and they charge no more than £3 per session.

**Intentional damage to school property:**
If a pupil deliberately damages school property, we have the right to request payment in full from the parents / guardians to cover the cost of the damage.

| Enw'r polisi | Dyddiad adolygu | Dyddiad adolygu nesaf |
|---|---|---|
| Polisi Codi Tal | Ionawr 2026 | Ionawr 2027 |